

## 2016 Rhif 261 (Cy. 94)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

#### Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Lôn Fawr, Rhuthun, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2016

*Gwnaed*

*26 Chwefror 2016*

*Yn dod i rym*

*7 Mawrth 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Mawrth 2016. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Lôn Fawr, Rhuthun, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2016.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr, ac
- (c) sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflynderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 7 Mawrth 2016 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw’r darnau o gefnffordd yr A494 yn Lôn Fawr, Rhuthun, Sir Ddinbych a ddisgrifir yn Atodlenni 1 a 2;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Cyfngiadau a Gwaharddiadau**

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

### **Atal Dros Dro**

7. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy’n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 drwy hyn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau pan fo’r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4 a 5 yn weithredol.

## Cymhwyso

8. (1) Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

## Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig                      26 Chwefror 2016

*Richard Morgan*

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## **ATODLEN 1**

1. Y darn o Gefnffordd yr A494 o'r enw Lôn Fawr sy'n ymestyn o bwynt sy'n 500 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r B5105 i gyfeiriad y de hyd at ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth o'r enw Ffordd Corwen.

## **ATODLEN 2**

2. Y darn o Gefnffordd yr A494 o'r enw Ffordd Corwen sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r darn o Gefnffordd yr A494 o'r enw Lôn Fawr i gyfeiriad y de hyd at ei chyffordd â'r lôn ddiddosbarth sy'n arwain at yr annedd o'r enw Ty'n-y-wern.